



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Penodi Cadeirydd

Dyddiad cau: 16:00, 25 Ebrill 2022



**The Commissioner for
Public Appointments**

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Cynnwys

Tudalen

Gwneud cais

3-5

Atodiad A: Rôl Cadeirydd

6-9

Atodiad B: Rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

10-11

Atodiad C: Y broses ddethol

12-13

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Gwneud cais

Diolch am fynegi diddordeb yn y penodiad i fod yn Gadeirydd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. Mae hwn yn gyfle cyffrous i arwain y Bwrdd Iechyd Lleol sy'n ffurfio tua 25% o ardal ddaearyddol Cymru. Mae'r Bwrdd Iechyd yn unigryw gan ei fod yn comisiynu ystod eang o wasanaethau i'w boblogaeth o Fyrddau Iechyd cyfagos ac ar draws y ffin yn Lloegr. Rydym yn chwilio am unigolyn sy'n deall anghenion poblogaeth y Bwrdd Iechyd a phwysigrwydd sicrhau amrywiaeth, cynhwysiant a hyrwyddo'r Gymraeg. Bydd gofyn i'r Cadeirydd newydd ddarparu arweinyddiaeth gref i'r Bwrdd a chynnal gwerthoedd GIG Cymru.

Mae'r Atodiadau sydd ynghlwm yn rhoi manylion rôl yr Cadeirydd a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a'r broses ddethol.

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma <https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/xf-04025d323e6a/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/>.

I wneud cais am y rôl, cliciwch ar y swydd Cadeirydd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ac yna cliciwch ar y botwm 'Gwneud cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro gyntaf ichi wneud cais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y mae angen ichi gofrestru, a thrwy wneud hynny byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu hanfon, trwy eich cyfrif.

Ar ôl cofrestru, bydd modd ichi weld y ffurflen gais. I wneud cais, bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV i adran 'Rhesymau dros wneud cais' y ffurflen gais ar-lein.

Datganiad Personol

Y datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf ym manyleb y person. Chi sydd i benderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech geisio rhoi enghreifftiau manwl sy'n dangos sut mae eich gwybodaeth a'ch profiad yn cyfateb i bob un o'r meini prawf, ac sy'n disgrifio beth oedd eich rôl chi yn y broses o gyflawni amcan penodol. Bydd o fudd i'r panel dethol hefyd os gallwch fod yn glir ynghylch pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae'n arferol neilltuo paragraff i bob maen prawf.

Byddwch cystal â chyfyngu'ch datganiad personol i **1000 o eiriau**. Mae'n bosibl y caiff eich cais ei wrthod os bydd eich datganiad yn hirach na hyn.

CV

Ni ddylai'ch CV fod yn fwy na **thair tudalen**. Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu ddiweddaraf, a'ch dyddiadau yn y rôl. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

Cyfeiriadau

Rhowch ddau enw cyswllt y gallwn gysylltu â hwy i ofyn am eirida (geirida cyflogwr a geirida personol). Dim ond ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus y byddwn yn gwneud hyn. Er mwyn cadw'r safonau uchaf o ran uniondeb a phriodoldeb, ni allwn dderbyn Aelodau'r Senedd na gweithwyr Llywodraeth Cymru fel canolwyr ar gyfer ceisiadau am aelodaeth o gyrff cyhoeddus.

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Amserlen fras

Dyddiad cau:	25 Ebrill 2022
Llunio rhestr fer:	w/d 2 Mai 2022
Cyfweliadau:	w/d 6 Mehefin 2022
Cychwyn yn y swydd:	1 Hydref 2022

Datganiad am Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai fod gan gyrff cyhoeddus aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu cymdeithas Cymru - pobl o bob cefndir - er mwyn eu helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud gwell penderfyniadau. Dyma pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

Hyderus o ran Anabledd

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gallu analluogi pobl sydd â nam neu gyflwr iechyd, neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod o staff berfformio ar ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd ("nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd").

Rydym yn gwarantu y byddwn yn cynnig cyfweliad i unrhyw un sy'n anabl os yw ei gais yn bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae bodloni'r 'meini prawf sylfaenol' yn golygu bod rhaid ichi ddarparu tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod yn bodloni'r lefel ofynnol o gymhwysedd ar gyfer y rôl ac unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a ddiffinnir yn rhai hanfodol.

Os hoffech gael cyfweliad gwarantedig, cysylltwch â'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus drwy e-bostio penodiadau.cyhoeddus@llyw.cymru i roi gwybod iddynt.

Os oes gennych nam neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, a'ch bod yn dymuno trafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, cysylltwch â'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod cyn gynted â phosibl, a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion ac i ateb eich cwestiynau.

Cysylltiadau:

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â'r:

Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus
Uned Cyrff Cyhoeddus
E-bost: penodiadau.cyhoeddus@llyw.cymru.

Am fwy o wybodaeth am rôl Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a rôl y Cadeirydd, cysylltwch â:

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Ysgrifennydd Dyddiadur y Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru, Llywodraeth Cymru

E-bost: DStoDGforHealthandSocialServicesChiefExecutiveNHSWales@gov.cymru

James Quance, Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

E-bost: james.quance2@wales.nhs.uk

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch chi i wneud cais am y rôl hon, cysylltwch â penodiadau.cyhoeddus@llyw.cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus.

Penodi Cadeirydd i Fwrdd Iechyd Addysgu Powys

Disgrifiad o'r rôl a manyleb y person

Rôl a chyfrifoldebau

Bydd y Cadeirydd yn atebol i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am berfformiad y Bwrdd a'i lywodraethiant effeithiol, am gynnal gwerthoedd y GIG, ac am ennyn hyder y cyhoedd a phartneriaid ledled ardal y Bwrdd Iechyd.

Bydd Cadeirydd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys:-

- **Yn arwain y Bwrdd wrth iddo ddatblygu Gweledigaeth Strategol** ar gyfer gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd yn y dyfodol, gan wireddu ac adeiladu ar botensial a sgiliau cynhenid y sefydliad i ddatblygu gwasanaeth arloesol sy'n dangos esiampl, gyda'r nod o wella lles y boblogaeth a gwella'r canlyniadau iddynt.
- **Yn cynnig arweiniad effeithiol a gweladwy** ar draws cyfrifoldebau'r Bwrdd, yn fewnol drwy'r Bwrdd, ac yn allanol drwy ei gysylltiadau ag ystod eang o randdeiliaid a phartneriaid ar lefel y gymuned, yr awdurdod lleol, y Bwrdd Iechyd ac yn genedlaethol;
- **Yn sicrhau bod y Bwrdd yn darparu'n effeithiol** nodau strategol a gweithredol y Bwrdd Iechyd drwy gyflawni nodau strategol a pholisïau a sicrhau llywodraethiant da;
- **Yn gyfrifol am gynnal** yr ansawdd uchaf o ran safonau ac arferion iechyd y cyhoedd, gan wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd;
- **Yn atebol am berfformiad y Bwrdd** ar lefel y gymuned, yr awdurdod lleol, y Bwrdd ac yn genedlaethol, drwy gytuno ar Gynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd a chynllun cyflawni blynyddol, a'r gwerthusiad blynyddol o'r cyraeddiadau yn erbyn y cynllun yn gyhoeddus gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol;
- **Yn sicrhau bod y Prif Weithredwr yn atebol am** bob un o'i gyfrifoldebau;
- **Yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid**, yn arbennig contractwyr gofal sylfaenol a chyrff eraill y GIG, prifysgolion, awdurdodau lleol, y Trydydd Sector a phartneriaid cymdeithasol, i sicrhau bod gwasanaethau diogel ac effeithiol yn cael eu cynllunio a'u darparu;
- **Yn rhoi sicrwydd a threfn lywodraethu ar gyfer gofalu'n briodol am arian cyhoeddus ac adnoddau eraill** y mae'r Bwrdd yn atebol amdanynt;

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

- **Yn rhoi sicrwydd bod y Bwrdd yn cael ei lywodraethu'n effeithiol** o fewn y fframwaith a'r safonau sydd ar waith ar gyfer y GIG yng Nghymru, gyda phwyslais arbennig ar sicrhau ei fod yn agored ac yn dryloyw;
- **Yn ymgymryd â rôl fel llysgennad allanol**, gan gynrychioli'r Bwrdd yn gyhoeddus ac ennyn hyder y cyhoedd
- **Yn gweithredu fel Ymddiriedolwr Corfforaethol** Elusen Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Manyleb y Person

Er mwyn cael eich ystyried, rhaid ichi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o'r meini prawf sy'n hanfodol ar gyfer y penodiad.

Meini Prawf Hanfodol

Gwybodaeth a Phrofiad

- Y gallu i feithrin gweledigaeth ac i arwain y gwaith o ddatblygu strategaethau diffiniedig wrth geisio cyflawni nodau hirdymor a byrdymor;
- Y gallu i hwyluso dealltwriaeth o faterion cymhleth, gan ddangos parch at farn pobl eraill;
- Y gallu i sicrhau bod aelodau'r Bwrdd yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd drwy gymryd rhan mewn proses gadarn a thryloyw o wneud penderfyniadau;
- Y gallu i ysgogi a datblygu'r Bwrdd i ddiffinio rolau a chyfrifoldebau er mwyn sicrhau perchnogaeth ac atebolrwydd;
- Ymrwymiad clir i ddeall a hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant;
- Y gallu i ddangos gwerthfawrogiad o ddwyieithrwydd a diwylliant, ac ymrwymiad i hyrwyddo a phrif-ffrydio'r Gymraeg.

Priodoleddau Personol

- Sgiliau rhyngpersonol a dylanwadu cryf a'r gallu i weithredu fel eiriolwr a llysgennad effeithiol;
- Barn gadarn, sensitifrwydd ac ymwybyddiaeth wleidyddol;
- Y gallu i fod yn annibynnol ac yn wydn.

Dymunol

- Y gallu i siarad Cymraeg

Y Gymraeg

Mae sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, ond bydd disgwyl i bob ymgeisydd ddangos ymrwymiad i'r iaith a'r diwylliant, a dangos arweiniad i gryfhau a hyrwyddo'r

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

ddarpariaeth gwasanaethau dwyieithog o fewn y GIG yng Nghymru. Dyma lefel y sgil sy'n cael ei hystyried yn ddymunol:

Dymunol

Deall = 2 - Gall ddeall sgysiau sylfaenol am bynciau bob dydd
Darllen = 2 - Gall ddarllen a deall deunydd syml am bynciau pob dydd
Siarad = 3 - Gall gynnal sgwrs mewn rhai sefyllfaoedd gwaith
Ysgrifennu = 1 - Gall ysgrifennu negeseuon sylfaenol am bynciau pob dydd

Ffeithiau allweddol am y swydd

Lleoliad: Tŷ Glasbury, Bronllys, Aberhonddu

Ymrwymiad amser: O leiaf 15 diwrnod y mis

Hyd y penodiad: Penodiad cychwynnol o hyd at 4 blynedd, i'w benderfynu gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Tâl: £44,820 y flwyddyn ynghyd â chostau teithio a chostau eraill, o fewn terfynau rhesymol.

Cymhwysra

Bydd unigolyn yn anghymwys i gael ei benodi os yw:

- a. wedi ei gael yn euog yn y 5 mlynedd diwethaf yn y DU, Ynysydd y Sianel neu Ynys Manaw o unrhyw drosedd sydd wedi arwain at ddedfryd o garchar (wedi'i gohirio neu beidio) am gyfnod o 3 mis neu fwy;
- b. wedi ei wneud yn fethdalwr neu wedi gwneud cyfamod neu drefniant gyda'i gredydwr
- c. wedi ei ddiswyddo, ac eithrio pan fo swydd wedi'i dileu neu pan nad adnewyddwyd contract tymor penodol, o unrhyw swydd gyflogedig yn un o gyrff y gwasanaeth iechyd;
- d. yn unigolyn y terfynwyd ei gyfnod fel cadeirydd, aelod neu gyfarwyddwr un o gyrff y gwasanaeth iechyd am nad yw ei benodiad er budd y gwasanaeth iechyd, am beidio â mynychu cyfarfodydd neu am beidio â datgelu buddiant ariannol
- e. yn weithiwr cyflogedig mewn Ymddiriedolaeth neu Fwrdd Iechyd.

Mae'n bolisi gan Lywodraeth Cymru fod pob un a gyflogwyd yn ddiweddar gan Fwrdd Iechyd Lleol neu Ymddiriedolaeth y GIG yn cael seibiant heb ymwneud â'r GIG cyn cael ei ystyried ar gyfer penodiad cyhoeddus yn y GIG

Yn ogystal â'r uchod, ni fydd person fel arfer yn gwasanaethu ar yr un pryd fel aelod nad yw'n swyddog ar fwrdd mwy nag un corff GIG yng Nghymru.

Dylai ymgeiswyr hefyd nodi y bydd bod yn aelod o Fwrdd Iechyd Addysgu Powys yn golygu na fyddant yn gymwys i fod yn aelod o Senedd Cymru o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwys) 2015

<http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2015/1536/contents/made>

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr oddi wrth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn eich penodi'n Gadeirydd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, a fydd yn cadarnhau'r telerau ar gyfer cynnig y penodiad. Bydd eich penodiad yn amodol ar broses gwirio geirdaon, a gynhelir gan Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Mae'n orfodol i ymgeiswyr llwyddiannus fynychu Rhaglen Gynefino GIG Cymru ar gyfer Aelodau Annibynnol a bydd gofyn ichi fynychu'r cwrs nesaf sydd ar gael.

Gwrthdaro Buddiannau

Wrth wneud cais, bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel y Cadeirydd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, gan gynnwys unrhyw fuddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'ch rôl o fewn Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweiliad. Os byddwch yn cael eich penodi, bydd disgwyl ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Diwydrwydd Dyladwy

Bydd Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar bob ymgeisydd sy'n cael ei ddioli'n llwyddiannus i gyfweiliad. Bydd hynny'n cynnwys ymhlith efallai pethau eraill, chwiliadau yn y cyfryngau cymdeithasol a'r rhyngwyd. O ganlyniad, gallem ofyn cwestiynau ichi yn y cyfweiliad am ffrwyth yr archwiliadau diwydrwydd dyladwy hyn.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl ichi arfer safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Bydd gofyn i'r holl ymgeiswyr llwyddiannus gydymffurfio â Chod Ymddygiad Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus. Gallwch weld y ddogfen yma:

<https://www.gov.uk/government/publications/code-of-conduct-for-board-members-of-public-bodies>

Rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Cefndir

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Powys yw un o siroedd mwyaf gwledig y DU. Er bod y sir yn ffurfio rhyw 25% o ardal ddaearyddol Cymru, dim ond 5% yn unig o'r boblogaeth sydd ganddi. Mae'r boblogaeth ym Mhowys yn hŷn o'i chymharu â gweddill Cymru ac mae cyfran y bobl hŷn yn cynyddu. Mae'r boblogaeth oedolion o oedran gweithio yn llai o'i chymharu â Chymru a rhagwelir y bydd nifer y bobl ifanc ac oedolion o oedran gweithio yn gostwng, tra bydd nifer y bobl hŷn yn cynyddu. Rhagwelir y bydd gostyngiad o 8% ym mhoblogaeth Powys erbyn 2039.

Mae gan y sir rwydwaith cryf o drefi a phentrefi bach a lefel uchel o ymrwymiad cymunedol a sector gwirfoddol cryf. Mae diweithdra'n isel, ond mae gan Bowys economi incwm isel gydag enillion cyfartalog isel a phrisiau tai sy'n uchel o'u cymharu ag ardaloedd eraill yng Nghymru. Mae pum ardal (Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is) ymhlith y 30% mwyaf difreintiedig yng Nghymru, wedi'u clystyru o amgylch y prif drefi marchnad â phoblogaethau preswyl uwch.

Yn gyffredinol, ceir canlyniadau iechyd da yn y Sir ac mae pobl yn byw'n hirach ac yn treulio mwy o flynyddoedd mewn iechyd da na'r cyfartaledd cenedlaethol, yn bwyta deiet iachach ac yn fwy egniol yn gorfforol. Mae llai o bobl yn teimlo'n unig ac mae mwy o ymdeimlad o gymuned a boddhad â bywyd. Dywed 83% eu bod yn teimlo eu bod yn perthyn i'w hardal leol, o'i gymharu â 75% yng Nghymru gyfan. Fodd bynnag, er bod iechyd cyffredinol yn dda, mae materion sydd wedi llywio'r strategaeth hirdymor. Mae 1 o bob 5 o bobl yn dal i smygu, mae 1 o bob 4 o blant yn rhy drwm neu'n ordew wrth ddechrau yn yr ysgol ac mae 6 o bob 10 o oedolion yn ordew. Mae anghydraddoldebau iechyd ymhlith pobl sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Powys yn sylweddol; mae plentyn a anwyd yn yr ardal fwyaf difreintiedig yn byw tua 10 mlynedd (bechgyn) i 14 oed (merched) yn llai na phlentyn a anwyd yn yr ardal leiaf difreintiedig.

Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn comisiynu gofal iechyd a hefyd yn darparu gofal iechyd yn uniongyrchol, ac mae'n wahanol i fyrddau iechyd eraill Cymru o ran cyfran y gwasanaethau a ddarperir i'r boblogaeth gan ddarparwyr gofal iechyd eraill. Mae cyllideb y bwrdd iechyd tua £300m. Mae 50% yn cael ei wario ar ofal eilaidd ac arbenigol, mae 20% yn cael ei wario ar ofal sylfaenol a 30% yn cael ei wario ar wasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol. Darperir y gwasanaethau uniongyrchol drwy rwydwaith o wasanaethau cymunedol ac ysbytai cymunedol sy'n cynnwys iechyd meddwl, anabledau dysgu, gwasanaethau mamolaeth a gwasanaethau plant. Darperir gofal ym Mhowys hefyd drwy gontractwyr gofal sylfaenol megis Practisau Cyffredinol, Practisau Deintyddol, Fferyllwyr ac Optometryddion, yn ogystal â'r Trydydd Sector. Mae yna hefyd ystod gynyddol o sesiynau cleifion allanol dan arweiniad ymgynghorwyr, nyrsys a therapyddion, theatr ddydd a diagnosteg mewn cyfleusterau cymunedol, gan ddod â gofal yn nes at Bowys ei hun ac yn nes at gymunedau a chartrefi pobl eu hunain.

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

O ran comisiynu, mae rhai nodweddion unigryw sy'n gosod cyd-destun Powys. Gan ei bod yn Sir gwbl wledig heb unrhyw gytrefi trefol mawr a dim ysbytai cyffredinol aciwt, mae'n rhaid i bobl Powys deithio y tu allan i'r sir ar gyfer llawer o wasanaethau, gan gynnwys gofal iechyd eilaidd ac arbenigol, addysg uwch, cyflogaeth a hamdden.

Mae'r bwrdd iechyd yn prynu gwasanaethau ar ran y boblogaeth gan 15 o brif sefydliadau darparwyr y GIG ledled Cymru a Lloegr. Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Amwythig a Telford yw'r gyfran fwyaf o'n gweithgarwch a gomisiynir ac Ymddiriedolaeth GIG Dyffryn Gwy yw'r ail fwyaf. Yng Nghymru, mae'r bwrdd iechyd yn prynu gwasanaethau gan Fyrddau Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Aneurin Bevan, Bae Abertawe a Chwm Taf Morgannwg, a chan eraill i raddau llai. Mae hyn yn cwmpasu pob arbenigedd, ond nid yw Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn gomisiynydd mwyafrifol i unrhyw ddarparwr aciwt.

Y Bwrdd

Diben Byrddau'r GIG yw llywodraethu'n effeithiol a thrwy wneud hynny feithrin hyder y cyhoedd a rhanddeiliaid bod eu hiechyd a'u gofal iechyd mewn dwylo diogel. Mae'r atebolrwydd sylfaenol hwn i'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn cael ei gyflawni drwy feithrin hyder:

- Yn ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd.
- Bod adnoddau'n cael eu buddsoddi mewn ffordd sy'n sicrhau'r canlyniadau iechyd gorau posibl.
- Bod y gwasanaethau iechyd yn hygyrch ac yn ymatebol.
- Y gall y cyhoedd lunio gwasanaethau iechyd yn briodol i ddiwallu eu hanghenion.
- Y caiff yr arian cyhoeddus hwnnw ei wario mewn ffordd sy'n effeithlon ac sy'n rhoi gwerth am arian.

Y tair rôl allweddol y mae'r Bwrdd yn dangos arweinyddiaeth trwyddynt yn ei sefydliad yw:

- **Llunio strategaeth**
- **Sicrhau atebolrwydd** trwy ddwyn y sefydliad i gyfrif am gyflawni'r strategaeth a thrwy geisio sicrwydd bod systemau rheoli yn gadarn ac yn ddibynadwy.
- **Siapio diwylliant cadarnhaol** ar gyfer y Bwrdd a'r sefydliad

Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiadau personol yr ymgeiswyr i benderfynu pwy sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl orau, a phwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'r datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Gofalwch felly eich bod yn darparu tystiolaeth sy'n dangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol.

Bydd y panel dethol yn cael ei gadeirio gan Judith Paget, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru, Llywodraeth Cymru, a bydd yn cynnwys Mick Giannasi, Cadeirydd Gofal Cymdeithasol Cymru, Becky Gorman, Llywodraeth Cymru ac Uwch Aelod Annibynnol o'r Panel (i'w gadarnhau).

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y bydd eich cais yn cael ei roi ar restr hir cyn cael ei roi i'r panel sy'n llunio rhestr fer i'w ystyried. Mewn sefyllfa o'r fath. Dylech fod yn ymwybodol ei bod yn bosibl na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan.

Rydym yn bwriadu cynnal y cyfweiliadau drwy Microsoft Teams.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf a fydd, ym marn y panel, wedi dangos orau eu bod yn bodloni'r meini prawf ym manyleb y person fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad. Fodd bynnag, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweiliad, a'ch bod yn **bodloni'r meini prawf hanfodol** ar gyfer y swydd, cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweiliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad ac nad yw'r dyddiad eisoes wedi'i nodi yn y pecyn gwybodaeth hwn, ein nod yw rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi o ddyddiad y cyfweiliad. Os na allwch fod yn bresennol ar y dyddiad hwnnw, fe wnawn ymdrechu i'w aildrefnu ond efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu oherwydd nad yw aelodau'r panel dethol ar gael.

Fe gewch e-bost gan system benodi Llywodraeth Cymru i roi gwybod ichi a ydych wedi eich gwahodd i gyfweiliad ai peidio.

Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad, bydd y panel yn eich holi ynghylch eich sgiliau a'ch profiad ac yn gofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn **bodloni'r meini prawf** a osodwyd ar gyfer y swydd ai peidio.

Bydd yr ymgeiswyr y bydd y panel yn credu eu bod yn addas i'w penodi yn cael eu hargymell i'r Gweinidogion, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall y Gweinidog ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os bydd yn dewis gwneud hynny, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd bwch amser rhwng y cyfweiliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a fydd wedi'u cyfweld yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am hynt y broses honno.

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Os byddwch yn llwyddiannus, fe gewch lythyr yn eich penodi'n Gadeirydd Bwrdd Iechyd Addysg Powys, a fydd hefyd yn cadarnhau'r telerau ar gyfer cynnig y penodiad.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn dilyn eich cyfweiliad, byddwch yn cael gwybod drwy ganolfan benodi Llywodraeth Cymru. Rydym yn gwerthfawrogi bod yn rhaid wrth gryn ymdrech ac amser i ymgeisio am swyddi a bod cael adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd y llythyr yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth ar eich cyfweiliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.

Gwrandawriad cyn penodi

Os byddwch yn llwyddiannus yn y cyfweiliad, byddwch yn cael ei gwahodd fynychu gwrandawriad gan un o Bwyllgorau Senedd Cymru.

Mae craffu cyn penodi gan bwyllgorau dethol yn rhan bwysig o'r broses ar gyfer rhai o'r penodiadau cyhoeddus mwyaf arwyddocaol a wneir gan Weinidogion. Cynlluniwyd y broses i ddarparu lefel ychwanegol o graffu ar y broses gyffredinol ac i gadarnhau bod y recriwtio yn bodloni'r egwyddorion a nodir yn y Cod Llywodraethu ar Benodiadau Cyhoeddus*. Gallai'r gwaith craffu hwn olygu bod y pwyllgor dethol perthnasol yn gofyn am wybodaeth gan yr Adran a'r ymgeisydd a ffefrir gan y Gweinidog, ac yn adolygu'r wybodaeth honno. Gallai'r pwyllgor dethol hefyd ddewis cynnal gwrandawriad cyn penodi.

Cynhelir gwrandawriadau cyn penodi yn gyhoeddus a bydd y pwyllgor dethol yn gwrandawrio ar dystiolaeth gan yr ymgeisydd a ffefrir gan y Gweinidog. Cynhelir y gwrandawriadau cyhoeddus hyn cyn i benodiad gael ei gadarnhau, ond ar ôl i'r broses ddethol gael ei chynnal.

Pan fo penodiad cyhoeddus yn destun craffu cyn penodi, mater i'r pwyllgor dethol perthnasol yw penderfynu a ddylid ymgymryd â gwaith craffu o'r fath, gan gynnwys a ddylid cynnal gwrandawriad cyn penodi. Yn dilyn adolygiad o'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr Adran am y broses recriwtio, gall y pwyllgor dethol benderfynu nad oes angen gwrandawriad craffu cyn penodi cyn iddo gyhoeddi ei adroddiad, os yw'n cytuno â dewis y Gweinidog o ymgeisydd.

Ymholiadau

Oes gennych gwestiynau am eich cais, cysylltwch â penodiadau.cyhoeddus@llyw.cymru.

Os nad ydych yn hollol fodlon

Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, cysylltwch â penodiadau.cyhoeddus@llyw.cymru.